**MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU**

**I'w ddefnyddio gan staff S4C yn unig**
**Tendr i gyflenwi Gwasanaethau Symud Swyddfa**

Enw’r Ymgeisydd:

Dyddiad Gwerthuso: Panel:

| **Archwiliad Cydymffurfiaeth – Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol - Rhan 1**<br><br>**Gwahardd o ganlyniad i fethiant yr Ymgeisydd i gyflwyno ymateb sy’n cydymffurfio â’r Holiadur Cyn-Gymhwyso ("Holiadur")**<br><br>**(Os atebir “Nac ydy” i unrhyw rai o’r cwestiynau isod, dylid gwahardd yr Ymgeisydd rhag cael ei ystyried ymhellach, oni bai bod modd i’r Ymgeisydd gynnig cyfiawnhad boddhaol)** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|
| A yw’r Ymgeisydd wedi cyflwyno’r Ymateb i'r Tendr ar ffurf electronig mewn neges e-bost erbyn 12.00 canol dydd ar 25 Mai 2018? | ☐ | ☐ |
| A yw’r Ymgeisydd wedi darparu’r holl fanylion priodol yn Rhan 1? | ☐ | ☐ |
| Ydy’r Ymgeisydd wedi hunan-dystio bod ganddo Yswiriant ddigonol yn unol â Rhan 4.3? | ☐ | ☐ |
| Ydy’r Ymgeisydd wedi hunan-dystio ei fod yn cydymffurfio â Chyfreithiau Cydraddoldeb neu ei fod wedi cymryd camau adferol priodol yn unol â Rhan 4.4? | ☐ | ☐ |
| Ydy’r Ymgeisydd wedi hunan-dystio ei fod yn cydymffurfio â Chyfreithiau Amgylcheddol neu ei fod wedi cymryd camau adferol priodol yn unol â Rhan 4.5? | ☐ | ☐ |
| Ydy’r Ymgeisydd wedi hunan-dystio ei fod yn cydymffurfio â Chyfreithiau Iechyd a Diogelwch neu ei fod wedi cymryd camau adferol priodol yn unol â Rhan 4.6? | ☐ | ☐ |
| A yw’r Ymgeisydd wedi llofnodi’r datganiad yn Rhan 5? | ☐ | ☐ |

## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Archwiliad Cydymffurfiaeth – Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol – Rhan 2**<br><br>**Gwahardd o ganlyniad i sefyllfa bersonol yr Ymgeisydd**<br><br>**(Os atebir "Ydy" i unrhyw rai o'r cwestiynau isod, dylid gwahardd yr Ymgeisydd rhag cael ei ystyried ymhellach)** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|
| A yw'r Ymgeisydd wedi ticio bocs "Ydw" wrth ateb Rhannau 2 neu 3? | ☐ Os ydy, dylid gwahardd yr Ymgeisydd rhag cael ei ystyried ymhellach oni bai bod modd i'r Ymgeisydd wedi dangos ei fod wedi "Hunan-olchi" mewn modd sydd yn dderbyniol i S4C | ☐ |

# MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| A. Gallu'r darparwr i gwrdd â gofynion S4C gan gynnwys cyflawni pob cam o'r prosiect | Datganiad dull yn nodi sut mae'r Tendrwr yn bwriadu cynllunio a gweithredu'r gwasanaethau gan ganolbwyntio ar bob cam a amlinellir yn y Tendr. | ***Arbennig (24-30)***<br>*Mae'r dull arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth yn arbennig ac mae'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth gadarn bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu pob elfen o'r gwasanaethau. Mae yna risg isel o berfformiad gwael pe byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro.*<br><br>***Da (16-23)***<br>*Mae'r dull arfaethedig o ddarparu pob elfen o'r gwasanaeth yn dderbyniol, ond mae'r dull ar gyfer darparu un neu fwy o'r agweddau o'r gwasanaeth yn aneglur neu'n anghyflawn. Mae'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu pob elfen o'r gwasanaethau i lefel dderbyniol ac i gwrdd â disgwyliadau S4C ar gyfer cyflawni'r cytundeb. Mae yna ychydig iawn o bryderon yn ymwneud â'r risg o berfformiad gwael y bydd angen eu rheoli pe byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro hon.*<br><br>***Pryderon (8-15)*** | | 30% |

MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| Asesiad o'r Meini Prawf Dethol<br><br>(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | *Er bod y dull arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth yn dderbyniol ar gyfer rhai agweddau o'r gwasanaethau, nid oes digon o fanylion yn yr ymateb i'r tendr ar gyfer pob elfen o'r gwasanaeth ac/neu nid yw'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth o arbenigedd yr Ymgeisydd o ddarparu pob elfen o'r gwasanaethau i'r safon uchaf. Mae yna beth risg o berfformiad gwael pe byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro a bydd angen lefel uchel o reolaeth ar y tendrwr llwyddiannus.*<br><br>***Pryderon sylweddol (0-7)***<br>*Mae'r dull arfaethedig o ddarparu'r holl neu rai o'r gwasanaethau yn achosi pryderon mawr a/neu nid yw'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu pob elfen o'r gwasanaethau i safon dderbyniol. Mae yna risg sylweddol o berfformiad gwael pe byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro hon.* | | |
| B. Gallu'r darparwr i reoli cylch bywyd y prosiect o fewn amserlen yn unol â gofynion S4C | Datganiad dull yn nodi sut bydd y Tendrwr yn rheoli cylch bywyd y prosiect gan gynnwys amserlen brosiect yn amlinellu'r allbynnau allweddol, llinell amser a dibyniaethau a sut y bydd y | ***Arbennig (16-20)***<br>*Mae'r dull arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth yn arbennig ac mae'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth gadarn bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i gyflawni pob elfen o'r* | | 20% |

## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | Tendrwr yn sicrhau cyfathrebu gyda staff S4C trwy gydol y prosiect. | *gwasanaethau o fewn y llinellau amser gofynnol. Mae yna risg isel o berfformiad gwael pe byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro hon.*<br><br>***Da (11-15)***<br>*Mae'r dull arfaethedig o ddarparu pob elfen o'r gwasanaeth yn dderbyniol ac mae'r ymateb i'r tendr yn dangos tystiolaeth bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu'r gwasanaethau, er mae elfennau penodol o'r dull yn aneglur neu nid yw'r llinell amser yn cydweddu â gofynion S4C yn llwyr. Gan nad yw gofynion S4C yn cael eu cwrdd yn llwyr, bydd angen rheoli'r risg hon.*<br><br>***Pryder (5-10)***<br>*Er bod y dull arfaethedig o ddarparu pob elfen o'r gwasanaeth yn dderbyniol yn gyffredinol, nid oes digon o fanylion yn yr ymateb i'r tendr a/neu nid yw elfennau penodol o'r dull neu'r llinell amser yn cwrdd â gofynion S4C. Mae yna beth risg o berfformiad gwael pe byddai'n llwyddiannus yn y broses dendro a bydd angen rheoli'r tendrwr llwyddiannus yn agos.*<br><br>**Pryder sylweddol (0-4)** | | |

## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | *Mae'r dull arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth yn achosi pryderon mawr. Nid yw'r ymateb tendr yn dangos tystiolaeth bod gan yr Ymgeisydd yr arbenigedd i ddarparu’r holl neu ran sylweddol o’r gwasanaethau ac/neu i gwrdd â llinell amser neu ofynion S4C. Mae yna risg sylweddol o berfformiad gwael pe byddai’n llwyddiannus yn y broses dendro hon.* | | |
| C. Profiad perthnasol y darparwr a gallu i gydymffurfio â chyfreithiau perthnasol ac arfer da | Disgrifiad cynhwysfawr o brofiad perthnasol y Tendrwr o fewn y tair blynedd diwethaf gan gynnwys:<br><br>a) Manylion hyd at dri chytundeb sy’n berthnasol i’r gwasanaethau yn y GID hwn yn nodi enw’r cwsmer, dyddiadau’r cytundeb, gwerth y cytundeb a disgrifiad o’r cytundeb a gyflawnwyd (os nad yw Tendrwr yn medru darparu o leiaf un enghraifft, darparwch esboniad o hyn e.e. mae’r sefydliad yn fusnes sydd newydd ei sefydlu); | ***Arbennig (9-10)***<br>*Mae profiad yr ymgeisydd wrth ddarparu’r gwasanaethau yn gweddu’n berffaith â gofynion S4C ac nid oes unrhyw faes yn peri gofid. Mae’r disgrifiad a ddarparwyd yn dangos bod gan yr Ymgeisydd weithdrefnau arbennig ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau perthnasol ac arfer da.*<br><br>***Da (6-8)***<br>*Mae profiad blaenorol yr ymgeisydd wrth ddarparu’r gwasanaethau’n cwrdd â’r rhan fwyaf o ofynion allweddol S4C ac nod oes unrhyw faes yn peri gofid sylweddol. Mae’r disgrifiad a ddarparwyd yn dangos bod gan yr Ymgeisydd y gallu i sicrhau cydymffurfiaeth â phob cyfraith* | | 10% |

# MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | b) Disgrifiad o sut bydd y Tendrwr yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl gyfreithiau perthnasol (gan gynnwys deddfwriaeth iechyd a diogelwch);<br><br>c) Disgrifiad o sut bydd y Tendrwr yn sicrhau arfer gorau (e.e. cynaliadwyedd/ystyriaethau amgylcheddol). | *berthnasol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, i sicrhau arfer da.*<br>***Pryderon (3-5)***<br>*Nid yw'r profiad blaenorol yn cwrdd â gofynion S4C yn llwyr, mae yna rai pryderon am brofiad perthnasol yr ymgeisydd ond credir y gellir eu rheoli.*<br><br>***Pryderon Sylweddol (0-2)***<br>*Mae pryderon mawr am ddiffyg profiad yr ymgeisydd wrth ddarparu'r gwasanaethau ac mae'r ymateb yn peri gofid mawr mewn nifer o feysydd nad yw'n dderbyniol. Nid yw'r disgrifiad a ddarparwyd yn dangos bod gan yr Ymgeisydd y gallu i sicrhau cydymffurfiaeth a/neu arfer da.* | | |
| Ch. Staff ac Argaeledd Adnoddau | Adran 4.2<br><br>a) Manylion y nifer cyfan o staff a gyflogir gan yr Ymgeisydd a'r math o waith y'u cyflogir hwy i'w gyflawni.<br><br>b) Manylion y nifer o staff sydd â phrofiad a chymwysterau perthnasol a fydd yn ymglymedig â darparu'r gwasanaethau. Nodwch | ***Arbennig (9-10)***<br>*Mae nifer y staff arfaethedig a'r gwaith fyddant yn ei gyflawni yn cydweddu â gofynion S4C. Mae profiad a chymwysterau'r staff sydd wedi eu penodi yn cydweddu â gofynion S4C yn union. Nid oes unrhyw faes yn peri pryder. Lle bo'r Tendrwr wedi nodi bod rhywfaint o'r gwaith i'w gyflawni gan drydydd parti, mae'r Tendrwr wedi dangos profiad arbennig yn rheoli is-gontractwyr.* | | **10%** |

## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | wybodaeth berthnasol am y personél allweddol.<br><br>c) Lle bo'r Ymgeisydd wedi nodi bod rhywfaint o'r gwaith i'w gyflawni gan drydydd parti, rhowch syniad am natur y gwaith y bwriadir ei is-gontractio a gwybodaeth am brofiad yr Ymgeisydd wrth reoli is-gontractwyr | ***Da (6-8)***<br>*Mae nifer y staff arfaethedig a'r gwaith fyddant yn ei gyflawni yn cydweddu â'r rhan fwyaf o ofynion S4C ar gyfer y cytundeb. Mae profiad a chymwysterau'r staff sydd wedi eu penodi i'r cytundeb yn fras yn unol â'r hyn sydd ei angen i gwrdd â gofynion S4C. Mae rhai meysydd yn peri pryder ond mae modd eu rheoli. Lle bo'r Tendrwr wedi nodi bod rhywfaint o'r gwaith i'w gyflawni gan drydydd parti, mae'r Tendrwr wedi dangos profiad yn rheoli is-gontractwyr.*<br><br>***Pryderon (3-5)*** *Mae ychydig o bryder am y nifer y staff a'r gwaith fyddant yn ei gyflawni. Mae profiad a chymwysterau'r staff yn is na'r gofynion S4C ac mae yna rai meysydd yn peri pryder ar y cyfan. Bydd angen i S4C reoli'r pryderon hyn yn agos. Lle bo'r Tendrwr wedi nodi bod rhywfaint o'r gwaith i'w gyflawni gan drydydd parti, nid yw'r Tendrwr wedi dangos profiad addas yn rheoli is-gontractwyr.*<br><br>***Pryderon Sylweddol (0-2)***<br>*Mae pryder sylweddol nad yw'r nifer o staff a'r gwaith maent am ei gyflawni yn ddigonol. Nid yw'r profiad a* | | |

## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | *chymwysterau'r staff sydd wedi eu pennu ar gyfer y cytundeb cydweddu â gofynion S4C. Mae pryder am holl feysydd ac felly ddim yn dderbyniol. Lle bo'r Tendrwr wedi nodi bod rhywfaint o'r gwaith i'w gyflawni gan drydydd parti, mae ymateb y Tendrwr yn dangos profiad gwael o reoli is-gontractwyr neu mae'r ymateb yn brin o fanylion.* | | |
| D. Cymwysterau Proffesiynol | Adran 4.1 -<br><br>Rhowch fanylion yr holl gymwysterau proffesiynol perthnasol a chysylltiadau â chymdeithasau masnachu sy'n berthnasol i'r cytundeb hwn gan gynnwys tystiolaeth o aelodaeth o'r Gymdeithas Brydeinig o Symudwyr (BAR). | ***Arbennig (5)***<br>*Mae cymwysterau proffesiynol yr Ymgeisydd yn cydweddu â gofynion S4C yn berffaith ac nid oes unrhyw faes yn peri pryder.*<br><br>***Pryderon Sylweddol (0)***<br>*Mae pryderon sylweddol am allu'r Ymgeisydd i gyfleu'r gwasanaeth oherwydd y diffyg cymwysterau proffesiynol ac mae'r ymateb yn codi meysydd pryder nad ydynt yn dderbyniol.* | | 5% |
| Dd. Ffi | Manylion y ffi sy'n daladwy am y gwasanaethau gan gynnwys cyllideb wedi'i chwblhau yn seiliedig ar y gyllideb templed (a osodir yn Atodiad 2) | ***Arbennig (12-15)***<br>*Mae'r ffi o fewn disgwyliadau S4C, yn fforddiadwy a chystadleuol ac rydym yn hyderus y gellir darparu'r gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon am y ffi.* | | 15% |

## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | ***Da (8-11)***<br>*Mae'r ffi yn uwch na'r disgwyl, ond mae'n fforddiadwy a rhesymol ac mae'n debygol y gellir darparu'r gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon am y ffi.*<br><br>***Pryderon (4-7)***<br>*Mae'r ffi'n fforddiadwy ond rydym yn pryderu na ellir darparu'r gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon am y ffi neu mae'r ffi'n uwch na'r disgwyl ac nid yw'n darparu gwerth ychwanegol am arian i gyfiawnhau ffi uwch.*<br><br>***Pryderon Sylweddol (0-3)***<br>*Nid yw'r ffi'n fforddiadwy ac/neu rydym yn pryderu'n fawr na ellir darparu'r gwasanaethau mewn modd effeithiol ac effeithlon am y ffi.* | | |
| E. Amserlen Dalu | Amserlen dalu | ***Arbennig (5)***<br>*Mae'r amserlen dalu a ddarparwyd yn cydweddu â disgwyliadau S4C yn berffaith.*<br><br>***Da (4)*** | | 5% |

## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | *Nid yw'r amserlen dalu yn cydweddu â disgwyliadau S4C yn llwyr, ond mae'n rhesymol ac mae modd ei reoli.*<br><br>***Pryderon (2-3)***<br>*Mae'r amserlen dalu a ddarparwyd yn nodi taliadau sylweddol ymlaen llaw neu mae yna rai pryderon am yr amserlen ond gellir eu rheoli.*<br><br>***Pryderon Sylweddol (0-1)***<br>*Mae'r amserlen dalu a ddarparwyd yn nodi taliadau ymlaen llaw annerbyniol neu mae yna bryderon arall am yr amserlen nad ydynt yn dderbyniol.* | | |
| F. Sylwadau ar y cytundeb drafft | Unrhyw sylwadau ar y cytundeb drafft neu'r nodiadau cyfreithiol | ***Arbennig (5)***<br>*Nid oes unrhyw faterion cytundebol o bryder wedi'u codi.*<br><br>***Da (4)***<br>*Mae rhai materion cytundebol o bryder wedi'u codi ond mae'r rhain yn dderbyniol.*<br><br>***Pryderon (2-3)***<br>*Rydym yn pryderu ychydig am y materion cytundebol sydd wedi'u codi ond fe ellir eu rheoli.*<br><br>***Pryderon Sylweddol (0-1)*** | | 5% |

## MACTRICS SAFONOL GWERTHUSO TENDRAU

| **Asesiad o'r Meini Prawf Dethol**<br><br>**(Dim ond y Ceisiadau hynny y maent wedi llwyddo i basio Rhan 1 a 2 yr Archwiliad Cydymffurfiaeth ar y Ffurflen Wybodaeth Sylfaenol y dylid eu hasesu)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Dethol** | **Gwybodaeth i'w hystyried** | **Arweiniad Sgorio** | **Sylwadau i gefnogi'r sgôr** | **Pwysiad a sgôr** |
| | | *Mae gennym bryderon mawr am y materion cytundebol sydd wedi'u codi ac nid ydynt yn dderbyniol ac ni ellir eu rheoli.* | | |
| **Cyfanswm** | | | | |